



Dewis hyrddod ar gyfer magu

Os ydych yn prynu hwrdd neu'n cadw hwrdd a fagwyd ar y fferm ar gyfer eich diadell, mae llawer o bethau i'w hystyried wrth ddewis eich hwrdd magu nesaf. Mae modd rhannu'r rhain yn ddwy flaenoriaeth. Yr elfen gyntaf yw cadernid corfforol yr hwrdd, a dylech allu asesu hynny eich hunan. Yr ail elfen yw'r rhinweddau genetig y bydd yr hwrdd yn eu trosglwyddo i'w epil, a gellir asesu'r rhain drwy'r Gwerthoedd Bridio Tybiedig (EBVau).

Defnyddio cofnodion perfformiad i ddewis hyrddod


Cyn dewis hyrddod ar gyfer eich diadell, mae'n bwysig edrych ar eich cofnodion cynhyrchu i'ch helpu i benderfynu beth i'w wella neu ei ddatblygu, ynghyd â phenderfynu beth yw gofynion magu eich diadell.

Ystyriwch eich cofnodion wyna diweddaraf a nifer/pwysau yr ŵyn a gynhyrchwyd. Bydd yr wybodaeth hon yn eich helpu i bennu'r blaenoriaethau ar gyfer eich diadell.


Mae'n bwysig adolygu'r nodweddion neu EBVau unigol er mwyn mynd i'r afael ag amcanion magu eich diadell. Waeth sut bydd cofnodion perfformiad yn cael eu gwerthuso, bydd y cyfrifo'n cael ei wneud ar sail debyg.

Mae gan siartiau EBV y ddau hwrdd isod fynegrif cyffredinol o 179, ond maent yn amrywio yn ôl eu nodweddion unigol. Wrth bennu'r nodweddion penodol rydych am eu gwella yn eich diadell, gallwch ddewis hyrddod sydd â sgôr uchel ar gyfer yr EBVau hynny er mwyn cyrraedd y nod.

Enghraifft A:



Enghraifft B:



Er enghraifft, os ydych yn dewis ar gyfer hyrddod i gynhyrchu mwy o wŷyn, mae maint y dorllwyth yn EBV priodol. Os ydych yn dewis hyrddod ar gyfer cyfraddau twf cyflymach, dylech ganolbwyntio ar bwysau 8-wythnos ac, yn bwysicach byth, ar bwysau sganio.

Cadernid corfforol

Mae'n hollbwysig i hyrddod fod yn gadarn yn gorfforol oherwydd ni fydd unrhyw ffigurau cofnodion yn gwneud yn iawn am hwrdd sy'n methu gweithio. Mae'r dannedd, ceilliau, blaen y carnau, ffyrfiant a thriniaeth yn hollbwysig.

- **Dannedd** – dylent fod yn fyr a sgwâr, ac yn gyson â'r geg uchaf er mwyn hwyluso pori. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn bridiau mamol a mynydd lle mae'r epil benyw yn debygol o gael eu cadw yn y ddiadell. Chwiliwch am grawniadau yn y geg a gwnewch yn siŵr nad oes unrhyw greithiau neu lymphiau ar hyd llinell yr ên.
- **Blaen y carnau** - Mae strwythur y coesau'n hollbwysig, yn enwedig o gwmpas y tymor hwrdda pan mae'r hyrddod yn brysur. Os yw hwrdd yn cael anhawster i symud bydd problemau o ran ffrwythlondeb. Wrth ddewis hyrddod, gwnewch yn siŵr fod eu coesau'n iawn a'u bod yn gallu eu plygu. Chwiliwch am unrhyw arwyddion o gloffni, a gofynnwch i'r bridwr sut mae'n rheoli cloffni.
- **Ceilliau** – dylai'r rhain deimlo'n weddol galed, yn debyg i gyhyr tynn. Dylent allu symud y tu mewn i'r cwd, ac ni ddylai unrhyw lymphiau fod yn bresennol. Chwiliwch am greithio neu ddifrod ar y cwd. Dylech osgoi hyrddod â gormod o wlân ar y cwd oherwydd gall hyn ordwymo'r ceilliau ac achosi problemau ffrwythlondeb. Bydd y cylchedd yn amrywio yn ôl brid ac oed yr hwrdd, fel y gwelwch isod -

	Oen hwrdd	Hwrdd blwydd	Hwrdd llawn-dwf
Tir isel	30cm	32cm	36cm
Mynydd	28cm	30cm	34cm

- **Ffyrfiant** – Dylech anelu at Sgôr Cyflwr Corff (BCS) o 3.5–4.0 ar gyfer hyrddod magu. Dylech osgoi hyrddod sy'n rhy dew oherwydd gall y rhain fod â libido gwael a allai achosi problemau ffrwythlondeb. Ceisiwch ddewis hyrddod a gafodd eu magu ar ddieta yn seiliedig ar borfwyd oherwydd ni fydd y gwaith yn drech na nhw.
- **Triniaeth** – Mae iechyd mor bwysig i'r hyrddod ag yw i'r mamogiaid; felly, holwch y bridwr ynghylch unrhyw achrediadau iechyd. A ydyn nhw'n sgrinio'r ddiadell ar gyfer clefydau rhewfryn fel Clefyd Johne, Clefyd y Gororau neu Maedi Visna? Pa frechiadau gafodd yr hwrdd? Hefyd, gwnewch yn siŵr fod gennych y cynllun bioddiogelwch ar gyfer y fferm a'ch bod yn ei ddilyn. Yn ddelfrydol, ceisiwch roi'r hwrdd mewn cwarantîn am 4 wythnos a mynnwch air â'ch milfeddyg ynghylch triniaethau addas ar gyfer cwarantîn.

Mae'r Llawlyfr Prynu Hwrdd diweddaraf gan HCC ar gael i'w lawrlwytho o'r wefan:

<https://meatpromotion.wales/cy/industry-projects/red-meat-development-programme/rmdp-cyhoeddiadau/hill-ram-scheme-publications>